



# Canllawiau ar gyfer Addysgu Disgyblion y tu allan i'w Blwyddyn Gronolegol

**Rhondda Cynon Taf | Ebrill 2021**

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg  
This document is available in English

## Tudalen Gynnwys

Adran	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Y rhesymau sy'n cael eu nodi'n aml dros geisiadau am addysg y tu allan i grwpiau blwyddyn gronolegol	3
3	Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu?	4
4	Dechrau ysgol yn y dosbarth Derbyn a phlant a gafodd eu geni yn yr haf	4
5	Ffactorau i rieni/gwarcheidwaid eu hystyried cyn gwneud cais am addysg y tu allan i'r grŵp blwyddyn	5
6	Pryd y dylid cyflwyno cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn gronolegol plentyn?	5
7	Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth benderfynu	6
8	Canlyniad y cais	7
9	Ffactorau pwysig i'w hystyried yn dilyn penderfyniad	7
10	A fydd disgwyl i blentyn aros y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud?	7
11	Apelio	8
Atodiad 1	Derbyn Disgyblion Rhondda Cynon Taf: Ffurflen Gais am Addysg y Tu Allan i Grŵp Blwyddyn Gronolegol	9

### 1. Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw yma yw rhoi gwybodaeth a chynghor i rieni, ysgolion a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â cheisiadau i blant gael eu haddysgu naill ai mewn grŵp blwyddyn iau neu hŷn na'u hoedran cronolegol.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y rhesymau sy'n cael eu nodi'n aml dros geisiadau am addysg y tu allan i'r grŵp blwyddyn
- Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu?
- Plant yn dechrau ysgol yn y dosbarth derbyn a phlant a gafodd eu geni yn yr haf
- Ffactorau i rieni a gwarcheidwaid eu hystyried wrth wneud cais
- Pryd i wneud cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn
- Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth benderfynu
- Canlyniad y cais
- Ffactorau pwysig i'w hystyried yn dilyn penderfyniad
- Hyd y plant sy'n parhau i gael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn
- Gweithdrefnau Cyflwyno Apêl

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu gofynion Cod Derbyn Ysgolion 2013.

## **2. Y rhesymau sy'n cael eu nodi'n aml dros geisiadau am addysg y tu allan i grwpiau blwyddyn gronolegol**

Gall fod sawl rheswm pam fod rhiant neu warcheidwad yn gwneud cais i'w plentyn gael ei addysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol. Dyma rai o'r rhesymau sy'n cael eu nodi fwyaf aml wrth wneud cais:

- Cafodd y plentyn ei eni'n gynamserol ar 31 Awst neu cyn hynny, ac roedd ei ddyddiad geni disgwylidig ar ôl 31 Awst;
- Cafodd y plentyn ei eni ym mis Medi, a gallai elwa o symud i ddosbarth gyda grŵp cyfoedion hŷn;
- Efallai bod rhiant/gwarcheidwad am ohirio anfon y plentyn i'r ysgol nes bod y plentyn yn cyrraedd oedran ysgol statudol ym Mlwyddyn 1 ac i'w dderbyn bryd hynny;
- Mae'r plentyn wedi cyrraedd y DU yn ddiweddar a/neu heb unrhyw brofiad o Saesneg;
- Mae'r plentyn yn ddawnus a thalentog a gallai beri anawsterau i'r athro wrth ddarparu cwricwlwm priodol;
- Mae gan y plentyn oediad yn ei ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol a does dim modd iddo wneud perthnasoedd cadarnhaol â'i gyfoedion, ac mae mewn perygl o gael ei ynysu; ac
- Mae'r plentyn wedi colli cryn dipyn o addysg oherwydd afiechyd neu amgylchiadau teuluol.

## **3. Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu?**

Er nad oes unrhyw rwystr statudol i blant gael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol, does dim dyletswydd i gytuno i gais o'r fath a does dim modd i riant/gwarcheidwad fynnu bod eu plentyn yn cael ei addysgu y tu allan i'w grŵp oedran arferol.

Gyda hyn mewn golwg, rhaid ystyried pob cais yn unol ag amgylchiadau unigol pob achos a beth sydd er budd gorau'r plentyn. Dylid hefyd ystyried barn y rhieni/gwarcheidwaid, y pennaeth a gweithwyr proffesiynol eraill.

Bydd y cyfrifoldeb am benderfynu yn dibynnu a yw'r cais mewn perthynas â phlentyn yn dechrau ysgol newydd neu a yw'r cais yn ymwneud ag ysgol y mae'r plentyn eisoes yn ei mynychu.

- **Cais am blentyn sy'n dechrau ysgol newydd.**

Pan fydd rhiant/gwarcheidwad yn gofyn i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol newydd (lle nad yw ar y gofrestr ar hyn o bryd) a'i addysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol, Awdurdod Derbyn Disgyblion yr ysgol y biau'r penderfyniad.

- **Cais am blentyn sydd eisoes yn mynychu'r ysgol.**

Pan fydd plentyn eisoes ar gofrestr yr ysgol, bydd pennaeth yr ysgol yn penderfynu a ddylid gosod plentyn mewn grŵp blwyddyn sy'n wahanol i'w oedran cronolegol.

#### **4. Dechrau ysgol yn y dosbarth Derbyn a phlant a gafodd eu geni yn yr haf.**

##### **Pryd mae rhaid i blentyn ddechrau'r ysgol?**

Mae Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi bod plentyn yn dechrau oedran ysgol gorfodol yn y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed, fel sydd wedi'i nodi yn Adran 2.2.1 o Lyfryn Dechrau'r Ysgol RhCT. Serch hynny, rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion roi cyfle i bob plentyn ymuno â dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

##### **Pryd mae modd oedi neu ohirio dechrau'r ysgol gynradd?**

Gan gydnabod y bydd rhai rhieni/gwarcheidwaid yn teimlo nad yw eu plentyn yn barod i ddechrau'r ysgol yn y mis Medi ar ôl i'w plentyn droi'n bedair oed, mae modd i rieni/gwarcheidwaid ofyn i'w plentyn fynychu'r dosbarth Derbyn ar sail rhan amser nes iddo gyrraedd oedran ysgol statudol. Neu yn lle hynny, mae'r dyddiad y bydd eu plentyn yn cael ei dderbyn i'r dosbarth Derbyn yn cael ei oedi hyd at ddiweddarach yn yr un flwyddyn academaidd, ond nid y tu hwnt i ddechrau'r flwyddyn academaidd y cafodd y lle ei gynnig. Caiff hyn ei alw'n '**Oedi Mynediad**'.

Pan fydd cais yn cael ei wneud i blentyn ddechrau'r ysgol flwyddyn yn ddiweddarach fel bod y plentyn yn cael ei addysgu yn y grŵp blwyddyn gronolegol iau, caiff hyn ei alw'n '**Gohirio Mynediad**'.

##### **Plant a gafodd eu geni yn yr haf**

Plant a gafodd eu geni yn yr haf yw'r rhai a gafodd eu geni rhwng 1 Ebrill a 31 Awst, ac maen nhw'n cyrraedd oedran ysgol statudol ar ddechrau'r mis Medi ar ôl iddyn nhw droi'n bum mlwydd oed.

Er y bydd mwyafrif o rieni/gwarcheidwaid plant a gafodd eu geni yn yr haf yn hapus i'w plentyn ddechrau'r ysgol yn y dosbarth Derbyn ar yr un pryd â phlant eraill eu hoedran, efallai y bydd gan rai bryderon ynghylch a yw eu plentyn yn barod ar gyfer yr ysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae modd i rieni/gwarcheidwaid ddewis i'w plentyn ddechrau'r ysgol pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol statudol, a thrwy hynny ailymgeisio i'w plentyn ddechrau'r ysgol ym mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed, a hynny ym Mlwyddyn 1.

Serch hynny, efallai y bydd rhai rhieni/gwarcheidwaid am ofyn i'w plentyn gael ei dderbyn i'r dosbarth Derbyn yn lle Blwyddyn 1, felly bydden nhw'n cael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Derbyn Disgyblion benderfynu a fyddai er budd gorau'r plentyn iddo ddechrau yn y dosbarth Derbyn, neu gollu'r dosbarth Derbyn a dechrau ym Mlwyddyn 1.

Dydy hyn ddim yn berthnasol i blant a gafodd eu geni yn yr hydref a'r gwanwyn gan fod yn rhaid i'r plant yma fod yn yr ysgol yn llawn amser yn y tymor ar ôl iddyn nhw droi'n bum mlwydd oed.

## **5. Ffactorau i rieni/gwarcheidwaid eu hystyried cyn gwneud cais am addysg y tu allan i'r grŵp blwyddyn**

Mae arfer da sefydledig o fewn yr Awdurdod a ledled y wlad yn dangos, ar wahân i'r amgylchiadau mwyafrif eithriadol, bod modd i ysgolion ddiwallu anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol pob disgybl o fewn eu grŵp blwyddyn priodol a bod hwn yn ddisgwyliad rhesymol.

Ym mhob achos, dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n ystyried gwneud cais i'w plentyn gael ei addysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol siarad â'r ysgol dan sylw i drafod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig, a sut y gallai'r ysgol ddarparu cwricwlwm gwahaniaethol i ddiwallu anghenion eu plentyn a chymorth i hwyluso parodrwydd y plentyn ar gyfer yr ysgol.

## **6. Pryd y dylid cyflwyno cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn gronolegol plentyn?**

Ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac ar ôl trafod gyda'r pennaeth a staff perthnasol yn yr ysgol, os ydy'r rhiant/gwarcheidwad o'r farn y byddai er budd gorau eu plentyn i gael addysg y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol yna bydd angen iddyn nhw lenwi Ffurflen Gais Derbyn Disgyblion Rhondda Cynon Taf - Addysg y Tu Allan i Grŵp Blwyddyn Gronolegol (Atodiad 1).

Does dim disgwyl i riant/gwarcheidwad gael tystiolaeth broffesiynol os nad oes ganddyn nhw hyn eisoes, ond bydd cyflwyno'r holl dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael yn cynorthwyo'r Awdurdod Derbyn Disgyblion a'r pennaeth i benderfynu a fyddai er budd pennaf y plentyn i gael ei dderbyn i'r ysgol y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol.

## **7. Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth benderfynu.**

Pan fydd cais i addysgu y tu allan i'r grŵp blwyddyn yn dod i law, rhaid gwneud penderfyniad yn seiliedig ar amgylchiadau unigryw'r achos a'r hyn sydd er budd gorau'r plentyn.

- **Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.**

Pan fydd gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu gynllun statudol, dylid defnyddio'r cyfarfod Adolygiad Blynyddol fel cyfarfod ymgynghori a dylid gwahodd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i'r cyfarfod. Dylai nodiadau cyfarfod yr Adolygiad Blynyddol ddangos yr holl ffactorau perthnasol sydd wedi'u hystyried a dylen nhw gofnodi barn yr holl gyfranogwyr yn y cyfarfod yn glir o ran a ydyn nhw'n cefnogi unrhyw gais am leoliad y tu allan i'r flwyddyn gronolegol.

Bydd y Panel Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn ystyried y wybodaeth sy'n codi o'r Adolygiad Blynyddol yn y ffordd arferol ac yn anfon penderfyniad yr Awdurdod Lleol i'r ysgol.

Pan fydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno i addysgu plentyn y tu allan i'r grŵp blwyddyn gronolegol, bydd diwygiad i Ddatganiad y plentyn yn cael ei wneud.

- **Plant sydd wedi symud i'r DU yn ddiweddar**

Dylai plant sy'n newydd i'r DU gael eu lleoli gyda'u grŵp cyfoedion. Fodd bynnag, os does gan y plentyn ddim llawer o brofiad o'r iaith Saesneg, os o gwbl, rydyn ni'n cynghori'r rhiant/gwarcheidwad a'r disgybl i gwrdd â'r pennaeth i drafod y cymorth priodol sydd o bosibl ei angen. Fel rheol, ni ddylid trin plant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn wahanol. Mae eu rhoi nhw gyda'u grŵp cyfoedion yn rhoi'r un manteision a buddion iddyn nhw ag y mae'n eu cynnig i blant eraill.

Serch hynny, gallai eithriadau fod yn berthnasol pe bai amgylchiadau'r achos yn nodi y byddai er budd pennaf y plentyn i gael addysg y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol, megis yn yr achosion canlynol:

- Mae eu profiadau addysgol blaenorol wedi bod yn gyfyngedig neu'n dameidiog, ac o ganlyniad mae sgiliau dysgu ffurfiol yn iaith y cartref a chyfrwng yr addysgu yn sylweddol y tu ôl i sgiliau eu cyfoedion cronolegol. Mae modd i'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) gynorthwyo ysgolion i ymchwilio i raddau profiadau addysgol blaenorol a sgiliau iaith gyntaf y plentyn;
- Mae arholiadau TGAU ar fin digwydd a byddai blwyddyn ychwanegol o baratoi yn galluogi'r disgybl i ennill sgiliau Saesneg a Chymraeg ychwanegol (yn dibynnu ar gyfrwng yr addysgu) er mwyn cael mynediad at addysg a phapurau a phrofiadau arholiad. Dylai unrhyw gynnig i symud disgybl y tu allan i'w flwyddyn gronolegol gael ei drafod gyda'r EMAS a fydd yn asesu'r disgybl ac yn rhoi cyngor yn seiliedig ar y cam hwnnw o gaffael iaith.

## **8. Canlyniad y cais**

- Pan fydd cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn yn cael ei dderbyn ar gyfer un o ysgolion Rhondda Cynon Taf, bydd Carfan Derbyn Disgyblion yr ALI yn gwneud y penderfyniad, ar y cyd â phennaeth yr ysgol ac, os bydd angen, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Pan fydd cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn gronolegol yn dod i law ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyr, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen i'r ysgol briodol i wneud y penderfyniad ac i ymateb i'r rhiant/gwarcheidwad ynghylch y canlyniad.
- Pan fydd cais am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn gronolegol yn dod i law ar gyfer plentyn sydd eisoes ar y gofrestr yn yr ysgol, bydd y pennaeth yn gwneud y penderfyniad ac yn rhoi gwybod i'r rhieni/gwarcheidwaid am y canlyniad.

## 9. Ffactorau pwysig i'w hystyried yn dilyn penderfyniad

- Dydy cytuno i drafod a ddylai plentyn gael ei dderbyn am addysg y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol ddim yn gwarantu y bydd yn cael cynnig lle mewn ysgol benodol. Bydd cynnig yn dibynnu a oes lle gwag yn bodoli ac a oes gan blant eraill flaenoriaeth uwch am le ai peidio - bydd plant yn cael eu rhestru yn erbyn meini prawf yr ysgol ar gyfer derbyn disgyblion pan fydd nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer mae modd ei dderbyn.
- Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unigol ar gyfer pob ysgol. Does dim sicrwydd y bydd Awdurdod Derbyn Disgyblion gwahanol yn dod i'r un penderfyniad ynglŷn â chais. Hefyd, does dim rhaid i un Awdurdod Derbyn Disgyblion anrhydeddu penderfyniad a wnaed gan Awdurdod arall.
- **Pan gytunir i leoli plentyn y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol, fydd hyn fel rheol ddim am fwy nag un flwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol.**

## 10. A fydd disgwyl i blentyn aros y tu allan i'w grŵp blwyddyn gronolegol unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud?

Pan ystyrir ei bod er budd gorau plentyn, mae modd i ysgol geisio symud plentyn yn ôl i'w grŵp blwyddyn gronolegol. Mewn achosion eithriadol, mae modd barnu ei bod yn briodol cyflymu grŵp blwyddyn plentyn ymhellach. Pan fod cynllun ar waith i blentyn ddychwelyd i'w grŵp blwyddyn gronolegol cywir, dylai hyn gael ei reoli o fewn cam neu gyfnod allweddol.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd yn briodol i blentyn barhau i gael ei addysg y tu allan i'r grŵp blwyddyn gronolegol. Yn yr achosion yma, efallai na fydd yn bosibl cynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer pontio oherwydd ym mhob achos bydd pontio yn ddibynnol ar y canlynol:

- Penderfyniad o ran cais arall am addysg y tu allan i grŵp blwyddyn ar wahân gan yr Awdurdod Derbyn Disgyblion ar gyfer yr ysgol newydd, a ffurflen gais yn cael ei chyflwyno gan y rhiant/gwarcheidwad, a lle yn cael ei gynnig yn unol â meini prawf derbyn yr ysgol.

## **11. Apelio**

Mae gan rieni/gwarcheidwaid yr hawl i apelio i Banel Apêl Derbyn Disgyblion annibynnol os mae lle wedi cael ei wrthod i'w plentyn yn yr ysgol maen nhw wedi cyflwyno cais amdani. Gan mai pwrpas y broses apelio yw trafod a ddylid derbyn plentyn i ysgol benodol, does gan rieni/gwarcheidwaid ddim hawl i apelio os cafodd lle ei gynnig i'r plentyn ac nad yw'r lle yn y grŵp blwyddyn yr oedden nhw'n dymuno.

## **Atodiad 1**

# **Derbyn Disgyblion Rhondda Cynon Taf Ffurflen Gais am Addysg y Tu Allan i Grŵp Blwyddyn Gronolegol**



Enw	
Oed	
Dyddiad Geni	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Ysgol Bresennol	
Grŵp Blwyddyn Cyfredol	
Enw'r Rhieni/Gwarcheidwaid Enw	
Cais / Rheswm dros wneud cais gyda gwybodaeth ategol	
Dyddiad: _____ Llofnod: _____ (Rhiant/Gwarcheidwad)	